Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Canllawiau Medr ar Amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad

Rhagfyr 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae sefydliadau a reoleiddir yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'u cynlluniau ffioedd a mynediad cyhoeddedig ac nad ydynt yn gwneud ymrwymiadau i fyfyrwyr oni bai bod cynllun ffioedd a mynediad, a gymeradwywyd gan Medr, yn galluogi hynny. Gall fod achosion lle mae sefydliadau'n dymuno diwygio neu amrywio ymrwymiadau y maent wedi'u gwneud mewn cynllun ffioedd a mynediad. Os yw sefydliad a reoleiddir yn dymuno amrywio eu cynllun ffioedd a mynediad, rhaid iddynt gyflwyno cais i Medr am gael gwneud hynny. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am wneud newidiadau i agweddau ar gynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd.

2. Rhaid i sefydliadau hysbysu Medr ar unwaith ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd ar ein cyfer ni mewn cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae gwybodaeth reoleiddiol yn cynnwys: bod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch, bod yn elusen, ac ar faterion ansawdd, hyfywedd ariannol a rheoli a llywodraethu materion ariannol. Mae rhagor o wybodaeth am yr agweddau hyn ar reoleiddio, fel y maent yn ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad, wedi'i chynnwys yn y canllawiau ar gynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddwyd yn flaenorol gan CCAUC. Mae newidiadau o'r fath y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn ac os bydd sefydliadau'n dymuno gwneud newid o'r fath i unrhyw ran o'r wybodaeth hon dylent gysylltu â Medr cyn gynted â phosibl yn cyngorrheoleiddio@medr.cymru.

3. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am gyflwyno cais i Medr i wneud newidiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd sy'n ymwneud â materion gan gynnwys lefelau ffioedd, darpariaeth a roddir ar ran sefydliad a reoleiddir, targedau, neu gyfrannau o fuddsoddiad a gweithgareddau. Rhaid i sefydliadau a reoleiddir beidio â gweithredu yn unol ag unrhyw ymrwymiad a amrywiwyd nes bod Medr wedi cymeradwyo amrywiad.

## Cefndir

4. Fe wnaeth Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae Rheoliad 9 yn Neddf 2015 yn darparu ar gyfer amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad.

5. Fe wnaeth Deddf 2015 gryfhau rôl CCAUC fel rheoleiddiwr, gan gynnwys cyfrifoldebau a oedd yn ymwneud â chymeradwyo, monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae Medr bellach wedi etifeddu'r rôl hon yn dilyn diddymu CCAUC fel sefydliad o 01 Awst 2024. Bydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn parhau i weithredu yn ystod blynyddoedd academaidd 2024/25, 2025/26 a 2026/27. O 01 Awst 2026, bydd y cynlluniau ffioedd a mynediad hynny'n parhau i weithredu ochr yn ochr â system reoleiddio newydd a fydd yn seiliedig ar gofrestru.

6. Mae'r Canllawiau Partneriaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol gan CCAUC yn darparu gwybodaeth am drefniadau partneriaethau breinio yn y DU, gan gynnwys diffiniadau o drefniadau dilysu a breinio[1].


[1] Gallai'r canllawiau hyn gael eu diwygio wrth i ni ddatblygu Fframwaith Ansawdd Medr

7. Mae’r [canllawiau ar gynlluniau ffioedd a mynediad]() a gyhoeddwyd yn flaenorol gan CCAUC yn darparu peth gwybodaeth am wneud newidiadau i geisiadau am gynlluniau ffioedd a mynediad newydd, cyn bod y cynlluniau hynny’n cael eu hystyried gan Medr. Mae’r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn rhoi cyngor ynghylch gofyn am newidiadau i gynlluniau sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan CCAUC neu Medr.

**Statws cynlluniau ffioedd a mynediad**

8. Rydym yn ystyried bod cynlluniau ffioedd a mynediad yn y cam ymgeisio nes bod Medr yn eu cymeradwyo’n ffurfiol neu’n rhoi rhybudd ei fod yn bwriadu eu gwrthod. Dan y ddeddfwriaeth, yn dilyn cael eu cymeradwyo, ystyrir bod cynlluniau ffioedd a mynediad ‘mewn grym’ o’r dyddiad y cânt eu cymeradwyo a’u bod ‘ar waith’ yn y blynyddoedd academaidd y mae a wnelont â hwy. Er enghraifft, yn dilyn y cylch cynllunio olaf o dan CCAUC, mae cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd ar gyfer 25/26 a 26/27 “mewn grym” ar hyn o bryd, a byddant “ar waith” o 01 Awst 2025.

**Amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd pan ydynt mewn grym: trosolwg**




9. I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau ffioedd a mynediad lle nad yw cais am amrywiad yn cael ei gymeradwyo gweler paragraffau 32 a 33.

## Rheoliadau ar gyfer amrywiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad

10. Mae Rheoliad 9 yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 yn nodi, wrth wneud unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad â chymeradwyo neu wrthod amrywiad i'r cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd, bod rhaid i Medr ystyried:

- yr angen i ddiogelu mynediad teg at AU;
- y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu AU;
- y ffioedd sy'n daladwy gan bersonau cymhwysol sy'n ymgymryd â chyrsiau cymhwysol; a hefyd
- cyfran y ffioedd sy'n daladwy gan bersonau o'r fath sy'n ymgymryd â chyrsiau o'r fath y bydd y corff llywodraethu yn ei gwario ar hybu cyfle cyfartal a hybu AU.

## Wrth ystyried amrywio cynllun ffioedd a mynediad

11. Cyfrifoldeb y sefydliad a reoleiddir yw cywirdeb cynllun ffioedd a mynediad. Mae Medr yn disgwyl i sefydliadau fynd ati'n weithredol i fonitro a rheoli'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad ac unrhyw geisiadau a wneir am amrywiad i'r cynllun hwnnw. Ein disgwyliad ni yw bod sefydliadau'n perchnogi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywio cynllun, o ran y prosesau angenrheidiol sy'n ofynnol i sicrhau eu bod yn ymlynu wrth y rheoliadau, ond hefyd o ran monitro unrhyw ddeilliannau sy'n gysylltiedig â'r amrywiad hwnnw.

12. Lle mae sefydliadau'n ystyried amrywio cynlluniau a gymeradwywyd dylent drafod goblygiadau'r newidiadau arfaethedig gyda Medr, ar y cyfle cynharaf. Bydd rhybudd cynnar yn ein galluogi ni i roi cyngor amserol a, lle y bo angen, cytuno gyda sefydliadau ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnom i wneud penderfyniad, ynghyd â llinell amser resymol ar gyfer cadarnhau penderfyniadau.

13. Rhaid i sefydliadau ymgeisio am gael amrywio eu cynlluniau lle cyfyd rhai newidiadau penodol. Efallai na fydd yn ofynnol cael amrywiad a chymeradwyaeth ffurfiol i rai diwygiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad. Bydd trafod unrhyw newidiadau posibl gyda ni, cyn cyflwyno ffurflen i wneud cais am amrywiad, yn ein galluogi ni i gadarnhau pa un a yw'r broses amrywio ffurfiol yn ofynnol a bydd yn lleihau'r baich adrodd ar sefydliadau, os nad yw'n ofynnol defnyddio prosesau ffurfiol.

## Disgwyliadau Medr ynglŷn ag amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd

14. Rhaid i sefydliadau gyflwyno cais i Medr am gael cymeradwyo newidiadau i gynllun ffioedd a mynediad pan fo'r cynllun a gymeradwywyd mewn grym. Dim ond os yw wedi cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Medr y gall amrywiad i gynllun ffioedd a mynediad gael ei roi ar waith.

15. Dylai sefydliadau hysbysu myfyrwyr a darpar fyfyrwyr ynghylch ymrwymiadau ariannol myfyrwyr, gan gynnwys lefelau ffioedd, fel a nodir yn y cynllun ffioedd a mynediad, cyn gynted â phosibl yn y cylch ymgeisio. Rhaid ystyried yr ymrwymiadau a'r cyfathrebiadau hyn wrth ymgeisio am amrywiad.

16. Nid yw Medr yn disgwyl i sefydliadau addasu na diwygio cynlluniau fel rhan o'r drefn arferol unwaith yr ydym ni wedi'u cymeradwyo. Fodd bynnag, gall amgylchiadau godi pan fyddai'n rhesymol gwneud rhai newidiadau penodol. Lle mae newidiadau'n ymwneud â materion rheoleiddiol, gweler paragraff 2 uchod. Ar gyfer newidiadau eraill, gall cyrff llywodraethu wneud cais am gael amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd, tra'u bod mewn grym, ond cyn eu bod ar waith, gan ystyried y canllawiau yn y cyhoeddiad hwn.

**Ystyriaethau diogelu defnyddwyr wrth amrywio cynlluniau a gymeradwywyd**

17. Mae amrywio cynlluniau a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd yn effeithio ar yr wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â chyngor yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata ynghylch cyfraith diogelu defnyddwyr wrth geisio a gweithredu amrywiadau i gynlluniau a gymeradwywyd.

**Cynnwys myfyrwyr wrth ystyried amrywio cynlluniau**

18. Rhaid i sefydliadau gynnwys myfyrwyr ar adeg gynnar yn eu trafodaethau ynglŷn ag amrywiadau i gynlluniau a chadarnhau yn y cais am amrywiad i Medr bod y gweithgarwch cynnwys myfyrwyr hwn wedi digwydd. Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad bod cyrff llywodraethu'n cymeradwyo unrhyw amrywiadau.

**Newidiadau neu ddiwygiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Medr iddynt trwy'r broses amrywio**

19. Mae newidiadau i gynlluniau y mae Medr yn eu hystyried yn arwyddocaol ac y mae'n ofynnol defnyddio proses amrywio ffurfiol ar eu cyfer yn cynnwys, ymhlith eraill:

- materion sy'n ymwneud â lefelau ffioedd;
- cytundebau breinio newydd neu gyrsiau amser llawn newydd a ddarperir ar ran y sefydliad y mae cymorth i fyfyrwyr yn ofynnol ar eu cyfer;
- lleoliadau astudio newydd lle mae cyrsiau amser llawn yn cael eu cyflwyno; a
- diwygio amcanion mewn cynlluniau ffioedd a mynediad.

20. Lle mae newidiadau arfaethedig yn cynnwys incwm ffioedd newydd y mae sefydliad yn disgwyl ei gael, o bartneriaethau newydd er enghraifft, rydym yn disgwyl i sefydliadau o leiaf gynnal cyfrannau'r buddsoddiad mewn cyfle cyfartal, hyrwyddo AU a chymorth i fyfyrwyr. Byddwn yn disgwyl i sefydliadau barhau i weithio i sicrhau

eu hymrwymiadau i fyfyrwyr. Rydym yn disgwyl i sefydliadau a reoleiddir adrodd yn fanwl ar y newidiadau hyn yn eu hadroddiadau monitro.

21. Wrth ddrafftio amrywiadau i gynlluniau, dylai sefydliadau ystyried a yw newidiadau arfaethedig i un rhan o gynllun yn effeithio ar rannau eraill o'r cynllun.

**Cylchoedd proses amrywio Medr**

22. Yn dilyn trafodaethau gyda sefydliadau ynglŷn â natur y newidiadau arfaethedig, os yw Medr o'r farn bod angen amrywiad ffurfiol, fel arfer bydd hi'n ofynnol i sefydliadau gwblhau Ffurflen i Wneud Cais am Amrywiad sy'n cynnwys cadarnhau bod y newidiadau arfaethedig wedi cael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu ac wedi cael cytundeb corff y myfyrwyr. Mae'r Ffurflen i Wneud Cais am Amrywiad ar gael ar wefan Medr.

23. I ategu ceisiadau am amrywiad ffurfiol, dylai sefydliadau gyflwyno cynlluniau a gymeradwywyd gyda newidiadau wedi'u tracio. Fel a nodir uchod, gall natur y newidiadau effeithio ar nifer o adrannau mewn cynlluniau ffioedd a mynediad.

24. Fel arfer, ni fydd Medr yn rhedeg proses amrywio tan ar ôl i gynllun ffioedd a mynediad gael ei gymeradwyo. Gall redeg proses amrywio pan ddisgwylir y bydd newidiadau'n ofynnol i nifer o gynlluniau ffioedd a mynediad. Er enghraifft, os ceir newidiadau i derfyn uchaf y ffioedd. Cyfrifoldeb sefydliadau yw sicrhau bod ganddynt oruchwyliaeth ar eu cynlluniau a gofyn am amrywiad i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r system reoleiddio.

**Gweithredu'r broses amrywio gan Medr**

25. Bydd Bwrdd Medr yn ystyried pob cais am amrywiad i gynllun ffioedd a mynediad sy'n cynnwys newid sylweddol i gynllun. Fel arfer, byddai Medr yn disgwyl gallu cwblhau ei brosesau ar gyfer cymeradwyo neu wrthod ceisiadau am amrywiad o fewn dau fis gwaith i gael yr holl ddogfennaeth ofynnol. Lle y bo ar Medr angen rhagor o wybodaeth i oleuo'r broses benderfynu, bydd Medr yn trafod llinell amser gyda sefydliadau. Lle'r ydym yn gwneud ceisiadau rhesymol am ragor o wybodaeth, rydym yn disgwyl i sefydliadau ymateb i'r ceisiadau hynny mewn modd amserol. Os ceir amgylchiadau a allai arwain at amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad ar draws nifer o sefydliadau a reoleiddir yna gallwn gyhoeddi amserlen bwrpasol i adlewyrchu'r amgylchiadau hynny

26. Bydd Medr yn cymeradwyo neu'n gwrthod, yn ysgrifenedig, yr holl geisiadau am amrywiad ffurfiol. Rhaid i Medr gadarnhau ei gymeradwyaeth cyn bod sefydliadau'n rhoi unrhyw newidiadau i gynlluniau a gymeradwywyd ar waith neu'n eu cyhoeddi. Os yw Medr yn cymeradwyo cais i amrywio, rhaid i'r sefydliad anfon fersiynau terfynol wedi'u diweddaru at Medr o gynlluniau ffioedd a mynediad a dolen i wefan y Brifysgol lle cyhoeddwyd y cynllun ffioedd a mynediad wedi'i ddiweddaru. Rhaid i'r holl gynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol fod ar gael i'r cyhoedd hefyd.

27. Wrth asesu ceisiadau am newidiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad, bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae'r amrywiadau arfaethedig yn parhau i gyflawni'r

ymrwymiadau a’r uchelgais a nodwyd yn y cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd yn wreiddiol neu’n mynd y tu hwnt i hynny. Bydd Medr hefyd yn ystyried canlyniad trafodaethau sefydliadau gyda myfyrwyr ynghylch newidiadau.

### Cyhoeddi cynlluniau ffioedd a mynediad unwaith y mae Medr wedi cymeradwyo amrywiadau

28. Ar ôl i Medr gymeradwyo amrywiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad, dylai sefydliadau ystyried y newidiadau a gymeradwywyd ac anfon fersiwn derfynol at Medr o’r cynllun ffioedd a mynediad diwygiedig, heb newidiadau wedi’u tracio. Dylai sefydliadau ailgyhoeddi’r cynllun ffioedd a mynediad diwygiedig a gymeradwywyd mewn lle amlwg ar eu gwefan. Dylai sefydliadau gyhoeddi’r cynllun diwygiedig a gymeradwywyd gyda gwybodaeth sy’n amlinellu’n glir y newidiadau a wnaed ac sy’n cadarnhau’r dyddiad pan wnaeth Medr gymeradwyo’r newidiadau, gan gynnwys nodi’r cytundeb â’r newidiadau gan y corff llywodraethu a chorff y myfyrwyr.

29. Lle nad yw Medr yn cymeradwyo amrywiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad, bydd y cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf i gael ei gyhoeddi fel y’i cymeradwywyd gan Medr yn sefyll.

### Proses yn dilyn gwrthod cais i amrywio gan Medr

30. Wrth gymeradwyo neu wrthod cais, bydd Medr yn gweithredu’n rhesymol. Fel arfer ni fydd Medr yn cymeradwyo amrywiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad lle mae’r canlynol yn wir:
    1. mae terfynau’r ffioedd yn uwch na’r terfyn ffioedd perthnasol uchaf a nodir mewn deddfwriaeth;
    2. nid yw corff myfyrwyr sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo’r cais am amrywiad; neu
    3. nid yw corff llywodraethu sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo’r amrywiad a gyflwynwyd.

31. Yn achos unrhyw faterion sy’n codi o ganlyniad y broses amrywio dylid anfon neges e-bost i cyngorrheoleiddio@medr.cymru.

### Amrywiadau unwaith y mae cynlluniau ffioedd a mynediad ar waith

32. Ni fyddai Medr yn disgwyl cael nac yn cymeradwyo ceisiadau i amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd unwaith y maent ar waith, oni bai y ceir amgylchiadau eithriadol.

33. Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau neu hysbysiadau.

**Cyflwyno cais i amrywio cynllun ffioedd a mynediad neu os am ragor o wybodaeth am gynlluniau ffioedd a mynediad**

34. Dylai sefydliadau ddefnyddio’r e-bost cyngor rheoleiddio ar gyfer yr holl ohebiaeth ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad gyda Medr, gan gynnwys ceisiadau i amrywio.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government